**APÊL** Undeb yr Annibynwyr Cymraeg 2023–24

# Ffynhonnau Byw

## Cefnogi ymdrech pobl dros gyfiawnder



Yalenis Medina - África En Mi Tierra

Lleolir Colombia yng ngogledd-orllewin De America, gyda phoblogaeth o tua 52 miliwn ac mae wedi ei rhannu yn 32 rhanbarth neu ddosbarth. Sbaeneg yw iaith swyddogol y wlad, ond caiff 65 iaith arall eu cydnabod fel ieithoedd rhanbarthol. Erbyn canol y 16eg ganrif, roedd Sbaen wedi trefedigaethu y rhan fwyaf o'r hyn a adnabyddwn fel Colombia heddiw. Daeth y wlad yn annibynnol yn 1819, gan ddod yn Weriniaeth Colombia yn 1886.

Ers annibyniaeth, mae'r wlad wedi dioddef llawer o drais. Mae hyn wedi cynnwys anghydfod dros dir gyda gwledydd eraill ond hefyd trais sylweddol oddi fewn i'r wlad rhwng carfannau gwleidyddol. Yn 2016, arwyddwyd cytundeb heddwch rhwng y llywodraeth a grŵp gerila FARC – anghydfod ble cafodd 6 miliwn o bobl eu dadleoli mewn cyfnod o 50 mlynedd. Er bod y mwyafrif o'r trais wedi dod i ben, mae rhai grwpiau sy'n anghytuno yn parhau i ddefnyddio trais at bwrpas gwleidyddol.

Mae gan Golombia un o fioamrywiaethau cyfoethocaf y byd, gan ddod yn gyntaf, er enghraifft, o ran nifer ei rhywogaeth adar. Mae'r economi wedi perfformio'n dda yn ddiweddar ac mae'r wlad yn dod yn safle 32 o ran gwledydd y byd yn ôl GDP.

Un sector allweddol yw allforio glo a phetroliwm, gyda 40% o allforion y wlad yn dod o'r sector hon yn 2022. Er hyn, y mae tlodi affwysol yno. Yn ôl Banc y Byd, y mae Colombia yn para i fod yn un o wledydd mwyaf anghyfartal y byd gyda'r 10% uchaf o enillwyr cyflog yn derbyn 40% o incwm y wlad, sydd 10 gwaith yn fwy na'r hyn y mae'r 20% isaf yn ei dderbyn.

### Colombia a Cymorth Cristnogol

Mae Cymorth Cristnogol wedi bod yn gweithio yng Ngholombia ers dros 20 mlynedd. Hyd at yn ddiweddar, roedd a wnelo'r gwaith â chefnogi cymunedau wedi eu heffeithio gan drais. Erbyn heddiw, mae cefnogi'r broses o adeiladu heddwch yn parhau'n bwysig, ond mae'r elusen hefyd yn cefnogi hawliau merched, amddiffyn hawliau tir pobl frodorol, cefnogi ffermwyr i addasu yn wyneb newid hinsawdd a gwarchod ecosystemau angenrheidiol.



Bydd y daflen wybodaeth hon yn cyflwyno rhai esiamplau o waith Cymorth Cristnogol yng Ngholombia sy'n enghraifft o waith yr elusen o amgylch y byd. Bydd arian a godir trwy apêl **Ffynhonnau Byw** yn cefnogi gwaith Cymorth Cristnogol yn gyffredinol yn rhyngwladol.

**annibynwyr.cymru**

cymorth cristnogol

Mae Cymorth Cristnogol yn aelod o'r ACT Alliance. Rhif elusen Cymru a Lloegr 1105851. Rhif cwmni 5171525. Mae enw a logo Cymorth Cristnogol yn nodau masnach Cymorth Cristnogol. Mai 2023. Lluniau: Cymorth Cristnogol / Manodeobra Creative Studio

## Gwarchod dŵr yn Santurbán



Mynyddoedd Santurbán, Colombia

Mae pobloedd frodorol Colombia yn ystyried ffynonellau dŵr yn gysegredig, gan gredu eu bod yn hanfodol i fywyd. Byddai gwyddonwyr yn cytuno ar bwysigrwydd dŵr, fel y mae'r biolegydd o Golombia, Mario Avellaneda, yn dweud: 'Dŵr yw ffynhonnell pob bywyd. Ac oherwydd hyn fedrwn ni ddim ei ddifrodi, ni ddylem ymosod arno. Rhaid inni warchod natur er mwyn gwarchod dŵr.'

Mae 37 ecosystem mawndir yn ucheldiroedd y wlad sydd yn cyflenwi dŵr i fwy na 70% o'r boblogaeth. Fodd bynnag, mae rhai o'r ffynonellau dŵr hyn yn cael eu peryglu gan fwyngloddio, diwydiant all niweidio cydbwysedd bregus natur ac effeithio'r ffynhonnell dŵr yn negyddol. Un enghraifft yw mawndir Santurbán yn rhanbarth Santander ac y mae partner Cymorth Cristnogol, **Corporación Colectivo De Abogados Luis Carlos Perez** (CCALCP) – cydweithfa cyfreithwyr – wedi bod yn helpu'r boblogaeth leol i amddiffyn yr amgylchedd allweddol hwn.

Mewn achos cyfreithiol pwysig yn 2017, llwyddodd CCALCP i sicrhau gwaharddeb yn erbyn y llywodraeth ar sut yr oedd mwyngloddio'n cael ei reoli yn y mawndir. Y bwriad oedd nodi ardaloedd lle y byddai caniatâd i fwyngloddio, gyda'r ddealltwriaeth y gallai cyrsiau dŵr yr ardaloedd hynny gael eu heffeithio, ond y byddai'r cyrsiau y tu allan i'r ardaloedd yn ddiogel.

Ond sylweddolodd ymgyrchwyr lleol nad dyma fyddai'n digwydd. Eglura Mayerly López o **Corambiente**, partner Cymorth Cristnogol: 'Pan wnaethom ni ddechrau astudio'r polisi hwn o ddiffinio'r mawndir mewn i ardaloedd, fe sylweddolom ni mai magl oedd hynny. Allwch chi ddim honni bod y mawndir am gael ei warchod o linell arbennig, ac yna, rai metrau yn is, llai na 100 metr yn is, mae prosiect mwyngloddio mawr am gael caniatâd i greu mwynglawdd tanddaearol mwy na 700 metr o ddyfnder.'

Yn ystod y broses gyfreithiol, daeth i'r golwg nad oedd astudiaeth wyddonol go iawn i benderfynu ar farcio ardaloedd wedi ei gwblhau. Mae'r achos wedi sicrhau na all unrhyw farcio ardal ddigwydd eto heb astudiaeth wyddonol. Canlyniad cadarnhaol arall i'r achos oedd bod rhaid sicrhau llais i bobl leol gydag unrhyw gynllun yn y dyfodol. Mae cyfranogiad y gymdeithas yn angenrheidiol nawr a golyga fod gan bobl leol fynediad i goridorau grym.

## Cymunedau'r tir isel

Nid mater o lygru dŵr yfed y boblogaeth gyffredinol yw unig effaith mwyngloddio, mae hefyd yn cael effaith ar ffermwyr bach a chymunedau'r tir sy'n uniongyrchol o dan y mawndir. Mae Corambiente wedi bod yn gweithio gyda'r cymunedau hyn hefyd.

'Ein man cychwyn yw'r broses o gynhyrchu bwyd ar gyfer sofraniaeth bwyd, ar gyfer hunangynhaliaeth. Yna gydag unrhyw gynnyrch dros ben gallwn greu incwm i'r merched,' eglura Mayerly López. Mae'r partner wedi bod yn gweithio gyda merched yn benodol i hybu ffermio cynaliadwy, sy'n rhoi llai o bwyslais ar wrtaith cemegol.

Canlyniad y gwaith yw cynnydd yn y cynnyrch, sy'n golygu fod yna ddigon o gynnyrch dros ben i'w werthu yn y farchnad ac sy'n rhoi incwm ychwanegol i'r merched. Un agwedd o'r gwaith hwn yw annog pobl ifanc i weithredu mwy mewn gwarchodaeth amgylcheddol.

Eglura Karen Daniela Pulido o fudiad pobl ifanc **Minigua**: 'Rhaid inni ddysgu adnabod ein coed cynhenid, ein rhywogaethau brodorol, a chadw cofnodion fel y gallwn ddod i adnabod ein hamgylchedd yn y mynyddoedd hyn. Mae yna bobl ifanc sydd â chnydau eu hunain, ac sy'n gweithio'r tir. Mae gen i sawl cydweithiwr sy'n cynhyrchu eu coffi eu hunain yn barod. Mae ganddynt incwm ar gyfer eu hunain eisoes.'



Mayerly López, Corambiente

cymorth cristnogol



Karen Daniela Pulido, Minigua

Mae Karen Daniela yn deall pa mor bwysig yw hi i'r genhedlaeth iau ddod yn weithredol. 'Rydym am blannu hedyn ein pobl ifanc, ac rydym am iddynt gymryd gofal a deall mai'n bywyd ni yw hwn. Cefn gwlad yw ein prif fywoliaeth,' meddai.

Mae partneriaid Cymorth Cristnogol wedi annog gweithredu cymunedol wrth amddiffyn yr ardaloedd dŵr, fel yr eglura Mayerly López: 'Trwy gydol y broses hon, mae gwerth cydweithio yn gryfach na dim. Maent wedi gwerthfawrogi'r grym a ddaw trwy ddod at ei gilydd, yn unedig. Rydym wedi dangos mai'r arf gorau i amddiffyn y diriogaeth yw i weithio fel cymuned.'

Felly mae partneriaid Cymorth Cristnogol wedi bod yn helpu cymunedau lleol i amddiffyn mawndiroedd, a thrwy hynny amddiffyn y ffynhonnell dŵr hanfodol ar gyfer poblogaeth Colombia'n gyffredinol, ac ar yr un pryd maent yn grymuso'r cymunedau hynny sy'n cynnal eu hunain drwy ffermio'n gynaliadwy.

## Cefnogi pobl wedi eu dadleoli gan waith glo

Ers 1975 mae'r gwaith glo brig mwyaf yn America Ladin i'w gael yn rhanbarth La Guajira. Er i Golombia basio Deddf Gweithredu Hinsawdd yn 2021, fyddai wedi lleihau echdynnu ynni ffosil, mae'r sancsiynau yn erbyn Rwsia yn dilyn y rhyfel yn Wcráin yn golygu bod y galw am lo'r wlad wedi cynyddu. Yn ganolog i waith ymgyrchu Cymorth Cristnogol mae'r alwad i leihau ynni ffosil, sydd yn cyfrannu'n uniongyrchol at yr argyfwng hinsawdd.

Yn lleol, mae cloddfa Cerrejón wedi dadleoli 1,500 o bobl o'u cartrefi a'u tir mewn cymunedau fel Tabaco a Chancleta. Ymhlith y bobl sydd wedi eu heffeithio mae cymunedau sydd o dras Affricanaidd – y rhai sydd wedi deillio o'r bobl Affricanaidd a fu'n gaethweision yn y 18fed a 19eg ganrif. Mae effeithiau'r gloddfa wedi bod yn ddeublyg ar y cymunedau hyn: yn gyntaf, llygru'r tir a'r dŵr; ac yn ail, colli traddodiadau a gweithgarwch economaidd oedd yn gysylltiedig â'u tir gwreiddiol.

Mewn ymateb i'r effeithiau hyn mae merched o dras Affricanaidd wedi bod yn ymgyrchu mewn gwahanol ffyrdd, trwy warchod eu gwybodaeth a'u traddodiadau hynafiadol a chefnogi eu hunain yn economaidd. Mae partneriaid Cymorth Cristnogol wedi bod yn cefnogi'r ymdrechion hyn, yn cynnwys cydweithfa cyfreithwyr **Colectivo de Abogados José Alvear Restrepo**.



Glofa Cerrejon, La Guajira

## Siop a chanolfan gymunedol

Mae Yalenis Medina yn drefnydd cymunedol yn ei phentref ac yn llywydd y cyngor cymuned. Mae'n perthyn i grŵp **África En Mi Tierra**, sydd wedi bod yn allweddol wrth greu siop a chanolfan gymunedol yn y pentref.

Nawr fod ganddynt siop yn eu pentref eu hunain, mae eu costau wedi lleihau gan nad oes rhaid iddynt mwyach deithio pellter o 17 cilometr neu fwy i ganfod siop. Yn ogystal â gwerthu cynnyrch, mae gan y ganolfan ryngrwyd a chyfleusterau gwefru ffonau symudol (i rai sydd heb drydan yn eu cartrefi) a gaiff eu gyrru trwy ynni solar. Hefyd mae ganddynt

cymorth cristnogol



Maria José Pinto – Retomando Raíces, Amor Por El Territorio

gynlluniau i ehangu'r gwasanaeth a chreu gofod i blant gael gwneud eu gwaith cartref ac fel bod meddygon yn gallu cynnal clinigau yno.

'Yn fwy na dim,' meddai Yalenis, 'mae'r prosiect hwn yn grymuso merched, trwy sgyrsiau a rhannu gwybodaeth, oherwydd yn ein cymuned ni does gan ferched ddim llawer o ddylanwad, a rhaid dechrau newid ychydig ar hynny.'

Mae'n credu'n angerddol y dylai merched adnabod eu gwerth eu hunain a'u galluoedd. 'Rwy'n gwahodd merched eraill i rymuso eu hunain, i newid y meddylfryd mai "partner rhywun" neu "mam rhywun" ydynt: rhaid i ni fod yn ni'n hunain. A dechrau dangos pwy ydym ni go iawn,' meddai.

## Colli traddodiadau hynafiadol

Mae Ana Sarmiento o África En Mi Tierra yn siarad am effaith y gloddfa ar eu ffynhonnell dŵr: 'Y dŵr: wedi ei lygru. Mae'r dail yn dyllog ac yn gweithredu fel rhidyll. Aiff y canghennau'n ddu gan lwch y glo oherwydd ein bod mor agos at y gloddfa … Rwyf wedi bod yn ffermio ar hyd fy oes a does dim posibl taflu llwch i'm llygaid i, oherwydd rwyf wedi bod ar y tir yma ers imi fod yn blentyn ac rwy'n ei adnabod yn well na neb, a gwn fod y llygru wedi gwneud difrod mawr, llawer iawn o ddifrod.'

Ond nid ar ffermio yn unig y caiff llygru'r dŵr effaith ond hefyd ar draddodiadau hynafiadol. Byddai cenedlaethau blaenorol yn cymryd 'bath lleuad' yn ystod cyfnod lleuad cilgant cyn gwneud unrhyw benderfyniad pwysig yn eu bywyd. Roedd dŵr glân, rhedegog yn allweddol i'r ddefod ac oeddent yn credu y byddai eu meddyliau yn cael eu puro trwyddi. Nawr fod y dŵr wedi ei lygru a'u bod wedi eu symud i ffwrdd oddi wrth ffynhonnell y dŵr, caiff y defodau hyn eu colli.

Mae Maria José Pinto yn perthyn i gydweithfa **Retomando Raíces, Amor Por El Territorio** (Ailddarganfod ein Gwreiddiau a Chariad at y Tir), mudiad sy'n dysgu plant am ddefodau a thraddodiadau eu hynafiaid. 'Gwelsom yr angen i ferched o gymuned Tabaco i barhau i ddysgu'r plant sut fath o le oedd Tabaco ac iddynt ddechrau deall atgofion eu cyndeidiau,' meddai.

Ychwanega Maria José: 'Mae merched [y grŵp cydweithredol] yn debyg i ryfelwyr benywaidd, rhyfelwyr, oherwydd y naill ffordd neu'r llall maent bob amser yn gwrthwynebu, dim ots beth ddywed eraill. Ynghynt, roeddent yn ceisio anwybyddu merched du, yn ein galw'n "arw". Ond nawr rydym wedi troi hyn ar ei ben a'i droi'n rhywbeth cadarnhaol sy'n ein llenwi gyda balchder: rydym ni'n wydn, ac roedd ein hynafiaid yn rhyfelwyr dewr.'

## Ffynhonnau Byw

Er gwaethaf heriau sawl cymuned yng Ngholombia, mae'r bobl yno wedi darganfod cryfder i allu gwrthsefyll a chreu bywyd newydd iddynt eu hunain. Trwy bartneriaid Cymorth Cristnogol, maent wedi cael eu cefnogi yn y gwaith hwn ac wedi canfod ffyrdd i addasu a ffynnu.

Trwy apêl **Ffynhonnau Byw**, safwn mewn undod gyda chymunedau tebyg o amgylch y byd, gan gynnig gobaith am fyd gwell.



annibynwyr.cymru